# Ysgol Bro Elwern

# Adroddiad y Llywodraethwyr i Rieni

# Governors Report to Parents

# 2024-25



## Gair gan ein Cadeirydd/ Message from our Chair of Governors

Ar ran Llywodraethwyr yr ysgol, hoffwn gyflwyno'r adroddiad hwn i chwi. Bydd yr adroddiad yn rhoi trosolwg i chi o waith yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf, a'r amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf. Hoffwn fanteisio ar y cyfle ar ran y Llywodraethwyr i ddiolch yn fawr i Mrs Catrin Phillips, ein Pennaeth am ei harweiniad cadarn yn ystod y flwyddyn diwethaf. Hoffwn hefyd ddiolch i'r holl staff am eu gwaith di-flino yn sicrhau lles y disgyblion, ac am eu gwaith caled a'u hymroddiad i Ysgol Bro Elwern.

Rydym fel Llywodraethwyr yn gwerthfawrogi pob cefnogaeth a gawn gennych fel rhieni. Gyda'n gilydd byddwn yn

cyd- weithio i sicrhau bod Ysgol Bro Elwern yn cynnig addysg o'r safon uchaf a'r gofal o'r ansawdd gorau i bob plentyn. Os hoffech drafod unrhyw agwedd o'r adroddiad hwn, cysylltwch â'r ysgol er mwyn i ni drefnu cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr.

Gyda dymuniadau gorau,

Carys Powell-Davies

Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgolion Ffederal Bro Elwern a Betws Gwerful Goch

On behalf of the school Governors, I would like to present this report to you. This report will give you an overview of the school's work over the last year, and it's aims for next year. I would like to take this opportunity on behalf of the Governors to thank Mrs Catrin Phillips, Head Teacher for her leadership during the last year. I would also like to thank all the school staff for their hard work in ensuring the wellbeing of the pupils, and for their dedication to Ysgol Bro Elwern.

As Governors, we appreciate all the support from you as parents. We will work together to ensure that Ysgol Bro Elwern will be the best possible school, offering education of the highest standard and the best quality of care for our pupils. If you wish to discuss any aspect of this report, and meet with the Governors, please contact the school.

Best Wishes,

Carys Powell- Davies

Chair of Governors at Ysgol Bro Elwern, and Ysgol Betws Gwerful Goch

## Llywodraethwyr yr Ysgol

Mae'r llywodraethwyr yn grŵp gwirfoddol sy'n cefnogi ac yn herio'r ysgol i sicrhau'r safonau uchaf posibl i'r disgyblion. Mae eu prif ddyletswyddau yn cynnwys:

- Sicrhau fod cwricwlwm yr ysgol yn cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm i Gymru, yr ysgol a pholisiau cyffredinol yr AALl.
- Penderfynu ar bolisiau'r ysgol mewn perthynas â'r ddarpariaeth.
- Penderfynu ar yr egwyddorion cyffredinol iw dilyn gan y Pennaeth wrth osod a gweithredu polisi ymddygiad.
- Rheoli cyllideb yr ysgol a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol.
- Cymryd rhan yn y broses o benodi staff i'r ysgol. Sicrhau fod gwybodaeth am yr ysgol yn cael ei ddarparu i rieni.
- Sicrhau fod gwybodaeth am gwricwlwm yr ysgol yn eang ac yn gytbwys ac yn bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru.

## The School Governors

The school Governors are a group of volunteers that support and challenge the school to ensure the highest possible standards for our pupils. Their main responsibilities include:

- Ensure that the school's curriculum complies with the requirements of the Curriculum for Wales, and the general policies of the LEA.
- Deciding on the school's policies in relation to the provision.
- Deciding on the general principles to be followed by the Headteacher when setting and implementing a behavior policy.
- Manage the school budget provided by the Local Authority.
- Participate in the process of appointing staff to the school. Ensure that information about the school is provided to parents.
- Ensure that information about the school's curriculum is broad and balanced and meets the requirements of the Curriculum for Wales.

# Ein Llywodraethwyr/ Our School Governors

| Enw | Cynrychioli/ representing |
|---|---|
| Mrs Carys Powell-Davies (Cadeirydd) | Rhiant/ Parent |
| Mrs Catrin Phillips | Pennaeth/ Headteacher |
| Mr Robert Kimberley | Athro/ Teacher |
| Mrs Iona Roberts | Staff |
| Mr Aled Roberts | Awdurod Lleol/ Local Authority |
| Mr John Roberts | Awdurod Lleol/ Local Authority |
| Mrs Glesni Roberts | Cymuned/ Community |
| Mr Harry Lloyd | Cymuned/ Community |
| Mrs Saran Lynch– Jones | Rhiant/ Parent |
| Ms Heledd Sian Roberts | Rhiant/Parent |


**Clerc: Nest Angharad Davies**


| Enw | Cynrychioli/ representing |
|---|---|
| Mrs Carys Powell-Davies (Cadeirydd) | Rhiant/Parent |
| Mrs Catrin Phillips | Pennaeth/ Headteacher |
| Mrs Hannah Blackford | Athrawon/ Teacher |
| Mrs Helen Hitchmough | Staff |
| Mr Eryl Evans (Is-gadeirydd) | Cymuned/ Community |
| Mrs Glesni Edwards | Awdurdod Lleol/ Local Authority |
| Mrs Donna Roberts | Awdurdod Lleol/ Local Authority |
| Mr Emyr Williams | Rhiant/ Parent |
| Mrs Catherine Hibbert | Rhiant/ Parent |
| Mr Hefin Lloyd– Davies | Cymuned/ Community |
| Mr Llion Roberts | Rhiant/ Parent |

| Staff Ysgol Bro Elwern |
|---|
| 1 Pennaeth/ 1 Headteacher |
| 1 Pennaeth cynorthwyol/ CADY<br>1 Assistant Headteacher/ ALNCO |
| 2 Athro/ 2 teachers |
| 2 Athrawes rhan amser/ CPA |
| 1 Uwch gymhorthydd/ 1 HLTA |
| 2 Gymhorthydd/ 2 Teaching assistants |
| 1 Ysgrifenyddes/ 1 secretary |
| 1 Cogydd/ 1 School cook |
| 1 Glanhawraig |

GWELEDIGAETH YR YSGOL






# Blaenoriaethau / Priorities 2024-25




### Blaenoriaeth 1- Datblygu sgiliau ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg ar Saesneg

Sut? Cynnig profiadau i'r disgyblion sydd yn sbarduno, ac yn ennyn eu diddordeb mewn ysgrifennu. Bwriadwn wahodd awduron a beirdd i'r ysgolion er mwyn cyd-weithio hefo'r plant. Bwraidwn ddatblygu llawysgrifen, geirfa, a defnydd ein disgyblion o idiomau, ansoddeiriau a chymariaethau.

### Blaenoriaeth 2-Datblygu cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored

Rydym yn bwriadu ehangu ar gyfleoedd y plant i ddysgu yn yr awyr agored drwy fuddsoddi mewn offer, a chynnig profiadau megis Ysgol y goedwig.

### Blaenoriaeth 3: Datblygu gwytnwch, a meddylfryd disgyblion drwy firenio ac addasu systemau cefnogi lles yn yr Ysgol.

Mae lles yn hynod o bwysig i ni yn y ddwy ysgol, ac ryden ni eisiau sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu Sylfaen cadarn er mwyn eu galluogi i fod yn ddysgwyr gydol oes, eu bod yn hyderus wrth ddysgu, yn gwynebu heriau hefo meddylfryd positif, ac yn dathlu, ac ymfalchio yn eu llwyddiannau.

### Is– flaenoriaeth:

### Parhau i ddatblygu sgiliau darllen a llythrennedd Saesneg dysgwyr hynaf y ddwy Ysgol (blwyddyn 3-6).

Mae gennym gynllun sillafu newydd, ac ryden ni wedi buddsoddi mewn rhaglen i ddatblygu sgiliau sillafu a darllen Saesneg y plant.




### *Priority 1- Develop extended writing skills in Welsh and English*

How? We intend to develop the children's interest in writing, by inviting authors and poets to the schools to work together with the children. We will be focusing on developing the children's handwriting, vocabulary, and use of idioms, adjectives and comparisons.

### Priority 2-Developing opportunities to learn outdoors

We intend to offer more opportunities for the children to learn outdoors by investing in equipment, and offering experiences such as Forest School.

### Priority 3: Developing resilience, and pupils' mindsets by evaluating and adapting well-being support systems in the school.

Well-being is extremely important to us at both Schools, and we want to ensure that our pupils have a good Foundation to enable them to be lifelong learners, confident when learning, face challenges with a positive mindset, and celebrate, and take pride in their successes.

### Priority: Continue to develop English reading and literacy skills of the learners of both Schools (year 3-6).

We have a new spelling scheme, and we have invested in a program to develop the children's English spelling and reading skills.





# Blaenoriaethau / Priorities 2025-26





**Blaenoriaeth 1**- Cyfoethogi'r cyfleoedd i ddigyblion wneud rhagor o ddewisiadau yn annibynnol am eu dysgu, gan gynnwys dulliau cofnodi. Sicrhau bod adborth yn adeiladol, ac yn helpu'r disgyblion gyda'r camau nesaf yn eu dysgu.

**Blaenoriaeth 2**-Cyfoethogi geirfa a phatrymau iaith ein disgyblion ymhellach ar lafar.

**Blaenoriaeth 3**-Cyfoethogi'r elfennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y cwricwlwm gan gynnwys meithrin cysylltiadau ag ysgolion byd eang ac ennill y faner werdd eco-ysgol.

**Blaenoriaeth 4**-Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

**Is– flaenoriaeth**- Datblygu arweinyddiaeth dosranedig ymhellach

***Priority 1***- Enrich the opportunities for our learners to make choices, and develop independence in their learning, including recording methods. Ensure that feedback is constructive, and helps the pupils with the next steps in their learning.

***Priority 2– To further enrich the use of our learners Welsh vocabulary and language patterns.***

***Priority 3***- Enriching the local, national and international elements in the curriculum including fostering links with schools around the world and receiving the eco-school green flag.




***Priority 4***- Providing regular opportunities for our pupils to apply their numeracy skills across the curriculum.

**Priority 5**- Further develop distributed leadership within the school.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL / ADDITIONAL LEARNING NEEDS

Mr Robert Kimberley sy'n gyfrifol am gyd-lynnu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol sy'n cynnwys trafod yn rheolaidd gydag athrawon dosbarth, staff cefnogi a rhieni. Mae Cynlluniau Addysgol Unigol yn cael eu cynllunio ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac mae staff cefnogi yn y dosbarth yn gweithio'n agos iawn gydag unigolion i gyflawni eu rhaglenni gwaith.

Rydym yn cyd-weithio gydag asiantaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol allanol i sicrhau cymorth priodol. Mae'r Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn weithredol yn yr ysgol.

*Mr Robert Kimberley is responsible for our Additional Learning Needs provision at school which involves regular discussions with teachers, support staff and parents. Individual Educational Plans are given to children with Additional Learning Needs and teachers and support staff work hard to implement these plans as the children strive to succeed with his/her targets. We work with relevant outside agencies to ensure appropriate support. We fully comply to the Additional Learning Needs Code.*

## GWAHARDDIADAU / EXCLUSIONS

Ni chafodd yr un disgybl ei wahardd yn ystod y flwyddyn 2024-25.

No pupils were excluded during the 2024-25 school year.

## TREFNIADAU A CHYFLEUSTERAU TOILED / ARRANGEMENTS AND TOILET FACILITIES

Mae gan yr ysgol nifer addas o doiledau ar gyfer y disgyblion a staff. Mae'r cyfleusterau yn cael eu glanhau yn ddyddiol.

*The school has an adequate number of toilets for the pupils and staff. The facilities are cleaned daily.*

## POLISIAU'R YSGOL /SCHOOL POLICIES

Cafodd nifer o bolisiau cwricwlaidd a rheolaethol eu hadolygu yn ystod y flwyddyn, ac mae copiau ohonynt ar gael ar gais yn yr ysgol. Mae nfer o'r polisiau ar gael ar wefan yr ysgol.

*A number of curricular and management policies were reviewed – copies of which are available on request, and some policies are available on our school website.*

## PROSBECTWS YR YSGOL / SCHOOL PROSPECTUS

Cafodd llawlyfr Ysgol Bro Elwern ei ddiweddaru yn ystod tymor y Gwanwyn 2025 i gydfynd â gofynion statudol. Mae'r llawlyfr ar gael yn y swyddfa, ac ar wefan yr ysgol.

The *School prospectus has been updated during the Spring term in 2025. The School prospectus is available in the Office, and on the School website.*

## PRESENOLDEB/ ATTENDANCE

Gofynnwn yn garedig i rieni gysylltu â'r ysgol cyn gynted â phosibl i ddarparu rheswm dros absenoldeb eu plentyn. Mae'r ysgol yn annog rhieni i osgoi tynnu plant allan o'r ysgol i fynd ar wyliau yn ystod y tymor os gwelwch yn dda.

**Ein targed ar gyfer presenoldeb yw 95%** **Presenoldeb yr ysgol gyfan 2024-25– 95%**

We kindly ask parents to contact the school as soon as possible to provide a reason for their childs absence. The school encourages parents to avoid taking children out of school to go on Holiday during term time.

**Our target for attendance is 95%** **Whole School attendance for 2024-25– 95%**

## YR IAITH GYMRAEG/ THE WELSH LANGUAGE

**Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol, a'r prif iaith ar gyfer addysgu a dysgu. Nôd yr ysgol ydy sicrhau fod y plant yn ddwyieithog pan y byddant yn trosglwyddo i'r Uwchradd yn 11 oed. Caiff plant y Dosbarth Sylfaen eu haddysg yn gyfan gwbl trwy'r iaith Gymraeg. Cyflwynir Saesneg i'r plant ym Mlwyddyn 3.**

**Mae Cymreictiod a thraddodiadau Cymreig yn cael sylw blaenllaw yn yr ysgol, llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr Ôl-aur y Siarter Iaith eleni.**

Welsh is the official language at Ysgol Bro Elwern, and is the main medium of learning and teaching. The school aims to ensure that our pupils are bilingual when they transfer to the Secondary school at the age of 11. Foundation Stage children are educated entirely through Welsh. Children begin English lessons in Year 3.

The school places a great emphasis on learning Welsh traditions, and the school successfully reached the gold Welsh Charter award again this year.

## CYSYLLTIADAU HEFO'R GYMUNED/ WORKING ALONSIDE OUR COMMUNITY

**Mae Ysgol Bro Elwern yn ymfalchio yn ein hymdrechion i gefnogi'r gymuned leol ac ehangach ym mhob ffordd bosibl.**

**Rydym yn annog cyfraniad y rhieni a'r gymuned leol yn addysg ein disgyblion.**

**Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng yr ysgol hon ac ysgolion cynradd lleol eraill i ymestyn a chyfoethogi'r cwricwlwm.**

**Mae ein Swyddog Cyswllt sef PC Llinos yn ymweld â'r dosbarthiadau yn dymhorol i roi cyflwyniadau pwysig.**

It is very important to us at Ysgol Bro Elwern that we support our local and wider community in every way possible.
We encourage the involvement of parents and the local community in the pupils' education.
The school works closely with other local primary schools to extend and enrich the curriculum.
Our Liaison Officer, PC Llinos visits the classes regularly to give important presentations.

## ADDYSG GORFFOROL A GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL/ PHYSICAL EDUCATION AND EXTRA CURRICULAR ACTIVITIES

**Ein nôd fel ysgol yw i roi cyfle i bob plentyn ddatblygu hyd eithaf ei allu. i gyrraedd y nôd yma, rydym yn defnyddio'r arbenigedd o fewn yr ysgol ac o bryd i'w gilydd yn defnyddio arbenigedd o fewn yr ardal.**

**Dyma rai o'r profiadau a dderbyniodd y disgyblion yn ystod y flwyddyn**

**Gwersi Nofio ym Mhwll Nofio, Corwen**

**Gala Nofio**

**Mabolgampau Ysgol ac Ardal**

**Clwb chwaraeon**

**Gweithgareddau chwaraeon amrywiol yr Urdd**

**Sesiwn beicio a diogelwch ar y ffordd**

Our aim as a school is to give every child the opportunity to develop to the best of their ability.

Here are some of the experiences pupils received during the year

Swimming Lessons at Swimming Pool, Corwen

Swimming Gala

School and Area Sports

Sports club

Various Urdd sports activities

Bikeability

## CYFATHREBU/ COMUNICATION

- Cylchlythyr – Dosbarthir ein cylchlythyr yn wythnosol drwy e-bost, ac ar app yr ysgol.
- Tudalen we – Dyma ffynhonnell cyson i rannu newyddion hefo rhieni sy'n cynnwys gwybodaeth am weithgareddau amrywiol.
- Cyfarfod – Cynhelir Noson Agored ar ddechrau'r tymor er mwyn i'r rhieni gael y cyfle i gyfarfod athro/athrawes eu plentyn a thrafod sut y mae wedi ymgartrefu'n yr ysgol ar ddechrau blwyddyn Newydd.
- Adroddiadau- Dosbarthir adroddiad cynhwysfawr ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, ac adroddiad canol y flwyddyn. Gwahoddir unrhyw riant sy'n dymuno trafod yr adroddiad i drefnu cyfarfod dros ffon.
- Mae cyfrif Instagram a facebook yn ddull o gyfathrebu hefo cymuned yr ysgol.
- Newsletter – Our newsletter is distributed weekly by email, and is available on the school's app.
- Website – This is a constant source for sharing news with parents, which includes information about various activities.
- Meeting - An Open Night is held at the beginning of the term to ensure parents have the opportunity to meet their child's teacher and discuss how they have settled into the school at the start of the New Year.
- Reports- A comprehensive report is distributed at the end of the academic year, and a mid-year report. Any parent who wishes to discuss the report is invited to arrange a meeting over the phone.
- The school's Instagram and Facebook account is a method of communication with the school community.

## IECHYD A DIOGELWCH/ HEALTH AND SAFETY

**Mae'r ysgol yn blaenoriaethu diogelwch pawb sydd ar dir yr ysgol, drwy weithredu ein polisi Iechyd a diogelwch**

The school priorities health and safety, and adhere to our health and safety policy.

## CYLLID/ FINANCES

**Defnyddwyd cyllideb yr ysgol er mwyn sicrhau'r profiadau gorau i'r disgyblion, ac er mwyn buddsoddi mewn adnoddau addas ar eu cyfer.**

The school budget was used to ensure the best possible experiences for our pupils, and to invest in resources.

**Derbyniodd yr ysgol yr arian isod mewn grantiau 2024-25:** ***The school received the following in grants for 2024-25:***

**Ecwiti/ Equity- £4,601**

**Safonau/ standars- £31,261**

**Diwygio/ Reform- £2,407**

| | Budget | Expenditure | Under/ (Overspend) |
|---|---|---|---|
| Balance b/f | £0 | £115,109 | £115,109 |
| Employees | £338,778 | £353,445 | -£14,667 |
| Premises | £37,500 | £35,471 | £2,029 |
| Travelling Expenses | £3,000 | £4,860 | -£1,860 |
| Supplies & Services | £45,255 | £38,612 | £6,643 |
| Third party / SLA's | £23,803 | £20,722 | £3,081 |
| Income | -£59,534 | -£83,588 | £24,054 |
| Balances | -£11,253 | £0 | -£11,253 |
| | | | |
| Balance c/f | | | £123,136 |

## CWRICWLWM / CURRICULUM

**Mae'r ysgol yn cyflwyno cwricwlwm llawn ac eang i'r holl ddisgyblion, ac mae sgiliau'r plant yn datblygu'n dda ymhob maes. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau dysgu er mwyn codi safonau, ac ennyn diddordeb ein dysgwyr. Mae dyluniad Cwricwlwm yr Ysgol ar gael ar ein gwefan.**

*The school offers a full and balanced curriculum to all our pupils. At School, we use a range of teaching methods to raise standards, and engage the childrens interest in learning. The School's curriculum is available for you to see on the School's website.*

## DATHLU DIWRNODAU PENODOL/ CELEBRATING SPECIFIC EVENTS

Plant Mewn Angen / Children in Neeed
Diwrnod 'Cerddoriaeth Cymraeg' / Welsh Music day
Dydd GŴyl Dewi/ Saint Davids Day
Diwrnod Owain GlyndŴr day
Eisteddfod Ysgol/ School Eisteddfod
Diwrnod y Llyfr / World Book Day
Nosweithiau Rhieni / Parents' evenings
Gwasanaeth ffarwelio Bl 6 / Yr 6 leavers' service

## *SIOEAU A CHYNGHERDDAU/ SHOWS AND CONCERTS*

Jambori– Dysgwyr Sylfaen/ Foundation Phase
Gwasanaeth Diolchgarwch / Thanksgiving Service
Cyngerddau Nadolig / Christmas concerts

## PROFIADAU GWERTHFAWR/LEARNING EXPERIENCES

Dylunio Cymeriadau'r pedwar diben/ Designing ou four purpose characters
Lluniau Owain Glyndwr i'w harddangos yn siopau Corwen/ Owain Glyndwr pictures displayed in Corwen
Sioe Mewn Cymeriad Iolo Goch/ Show
Cystadleuaeth Pel droed yr Urdd/ Urdd football tournament
Noson groesawu/ Welcome evening
Diwrnod shwmae su'mae/ Celebrate Shwmae, su'mae day
Ymweliad PC Llinos/ Pc Llinos visit
Cogurdd
Dangos y cerdyn coch i hiliaeth/ Show racism the red card
First experience– Denbighshire music, Cydweithfa Cerdd Sir Ddinbych
Gwasanaeth Diolchgarwch/ Thanksgiving Service
Landscapes for learning
Cystadleuaeth ysgrifennu stori am gymeriadau'r pedwar diben/ Writting a story about the four purpose Characters competition
Colour run
Ymweliad Canolfan Ni– canu/ Singing in Canolfan Ni
Gwylio pantomeim Culhwch ac Olwen Pantomime
Diwrnodau pontio Ysgol Bryn Hyfryd/ Transition days at Ysgol Brynhyfryd
Ymweliad Cygod y Gaer/ Visiting Cysgod Y Gaer
Cyngerdd Nadolig/ Christmas Concert

Sioe paid cyffwrdd, dweud, Don't touch, tell.
Make some noise
Ymweliad fferm Tyn Celyn/ Tyn Celyn farm visit
Gwersi nofio/ Swimming lessons
Gwethgareddau Technocamps activities
Diwrnod Cariad@yr Urdd day
Cwis dim Clem quiz
Gweithgareddau Celf a drama hefo Samantha Kanyon/ Drama and creative workshops with Samantha Kanyon
Taith breswyl i Glan-llyn residential trip
Disgo tawel/ Quiet disco
Gwylio sioe Matilda, Ysgol Brynhyfryd/ Watching Matilda show at Ysgol Brynhyfryd
Gornest lyfrau/ Book quiz
Gweithdy hefo Anni Llyn/ Workshop with Anni Llyn
Recordio anthem yr ysgol/ Recording the school anthem
Sesiwn rygbi wythnosol/ Weekly rugby sessions
Eisteddfod, cylch, Sir, genedlaethol/ County, Regional and National Eisteddfod
Eisteddfod Ysgol/ School eisteddfod
Diwrnod y llyfr/ World book day
Dathlu gwyl Dewi/ Saint Davids day
Sbectrwm
Gweithdy cwiltio yng Nghanolfan Grefftau Rhuthun/ Quilting workshop at Rhuthun Creft Centre
Mabolgampau/ Sports day
Trip Preswyl i Gaedydd/ Cardiff residential trip
Trip i Pen y pigyn/ Pen pigyn trip
Trip i Gelli Gyffwrdd trip
Gala Nofio/ Swimming Gala
Prynhawn meddylfryd twf hefo rhieni/ Parents wellbeing afternoon
Prosiect celf Owain Glyndwr art project
Gweithgareddau ynni adnewyddadwy/ renewable energy activities
Diwrnod o ddathlu'r Siarter Iaith/ Language Charter Celebration day
Bikeability
Rafftio dwr gwyn/ White water rafting

## AMSEROEDD YR YSGOL/ SCHOOL TIMES

| | |
|---|---|
| Meithrin/ Nursery | 9:00-11:30 |
| Derbyn / Blwyddyn 1 / Blwyddyn 2<br>Reception/year one/year 2 | 9.00 – 12.00<br>1.00 – 3.15 |
| Blynyddoedd 3 ,4, 5 a 6<br>Years 3,4,5 and 6 | 9.00 – 12.00<br>1.00 – 3.15 |

## YMDRIN Â CHWYNION / COMPLAINTS

**Mae gan yr ysgol ethos agored, gyfeillgar ac mae croeso i chi drefnu i weld y Pennaeth i drafod unrhyw bryder. Pan fo angen codi cŵyn am agwedd o waith yr ysgol, dylid cysylltu â'r Pennaeth ac os na chewch eich bodloni, cysylltwch â Chadeirydd y Corff Llywodraethol. Os nad yw'r mater wedi ei ddatrys, cysylltwch â'r Adran Addysg yn y Cyngor Sir.**

The school has an open and friendly ethos, and you are welcome to arrange to meet the Head teacher to discuss any concerns. If you have a complaint about any aspect of school work, the first point of contact should be the Head teacher, and if you are not satisfied, you should contact the Chair of Governors. Following this, if the matter is unresolved, the Local Authority.

## CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON/ PARENTS AND TEACHERS ASSOCIATION

**Dymunai'r Llywodraethwyr ddiolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rhieni ac athrawon am drefnu digwyddiadau arbennig yn yr ysgol eto eleni, ac am eu cefnogaeth parhaus i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael cyfleoedd arbennig.**

The Governors would like to thank the Parents and Teachers Association for arranging several excellent activities again this year, and for their continued support in ensuring our pupils have wonderful experiences.

Cyfeiriad e-bost yr ysgol/ school e-mail address:

Betws.gg@sirddinbych.gov.uk

Cyfeiriad e-bost cadeirydd y Llywodraethwyr/ Chair of Governors e-mail address:

Powell-DaviesC5@Hwbcymru.net

Cyfeiriad e-bost y Pennaeth/ Headteacher e-mail address:

Phillipsc355@hwbcymru.net

Rhif ffôn yr ysgol/ School contact number:

01490 460 315

Diolch yn fawr iawn i ddisgyblion, rhieni a staff Ysgol Bro Elwern am eich cefnogaeth a'ch cyd-weithrediad i'r corff Llywodraethol yn ystod y flwyddyn 2024-25.

Many thanks to the pupils, parents and staff at Ysgol Bro Elwern for your support and co-operation to the Governing Body during 2024-25

